

ADRODDIAD YMGYNGHORI



**Cynnig i derfynu
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
Doc Penfro**

**Corff Llywodraethol
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair**

Rhagfyr 2018

Cyhoeddwyd gan:

**Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd
Gatholig y Santes Fair
Bufferland
Doc Penfro
SA72 6PD**

Rhagfyr 2018

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print brasach neu ar dâp sain, neu mew iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 776613

Rhagair

Mae'r Adroddiad Ymgynghori hwn yn cyflwyno'r ymgynghori statudol a wnaed ynghylch y bwriad i gau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair. Yn ogystal, caiff holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi, ynghyd â chrynodeb o bob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion. Gyda'r rhain mae eglurhad neu wrthodiad (fel y bo'n briodol) o unrhyw bryderon.

Bydd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

Barbara Thomas
Cadeirydd y Llywodraethwyr

David Burgoyne
Is-gadeirydd y Llywodraethwyr

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori	2
3. Trefniadau Ymgynghori	3
3.1. Trefniadau Cyffredinol	
3.2. Ymgynghori ag Esgobaeth Menefia	
4. Gohebiaeth Ymgynghori	4
4.1. Faint o Ymatebion a dderbyniwyd a'u Proffil	
4.2. Ymateb Cyffredinol	
4.3. Llais y Disgybl	
4.4. Ymateb Cyngor Sir Penfro	
4.5. Ymateb Estyn	
ATODIAD A – Sylwadau'r Disgyblion a Chyffredinol	9
ATODIAD B – Ymateb gan Cyngor Sir Penfro	19
ATODAIAD C – Ymateb gan Estyn	21

1. Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19^{eg} Mehefin 2018, penderfynodd corff llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ymgynghori ag ymddiriedolwyr Esgobaeth Mynyw ynghylch ei gynnig i derfynu'r ysgol. Gwnaed y penderfyniad hwn yng ngoleuni nifer o ffactorau, yn arbennig y dirywiad sylweddol yn nifer y disgyblion yn yr ysgol.

Yn unol â'r rheoliadau perthnasol, ymgynghorwyd ag ymddiriedolwyr Esgobaeth Mynyw ar y cynnig uchod. Cynhwyswyd hyn mewn llythyr a anfonodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y corff llywodraethol at yr Ymddiriedolwyr ar 6^{ed} Gorffennaf 2018. Ymatebodd yr Ymddiriedolwyr i'r ymgynghoriad hwn mewn llythyr dyddiedig 13^{eg} Gorffennaf 2018.

Wedyn ystyriodd corff llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ymateb yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 6^{ed} Medi 2018, a phenderfynwyd fel a ganlyn:

- (a) Nodi ymateb ymddiriedolwyr Esgobaeth Mynyw, yn arbennig y cais i sicrhau parhad mynediad at ddarpariaeth addysg Gatholig i blant yn y cylch trwy ystyried dalgylchoedd a darparu cludiant.**
- (b) Awdurdodi Cadeirydd y corff llywodraethol i gynnal ymgynghori cyffredinol ar ran y corff llywodraethol ar y cynnig i derfynu Ysgol Gatholig y Santes Fair – I'w weithredu ym mis Ebrill 2019.**
- (c) Gofyn am gymorth Cyfarwyddwr dros Blant ac Ysgolion Cyngor Sir Penfro wrth ddilyn y broses angenrheidiol i derfynu'r ysgol a sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.**

Cynhaliwyd yr ymgynghori statudol o ganlyniad yn ystod y cyfnod rhwng 15^{fed} Hydref 2018 a 30^{ain} Tachwedd 2018.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y corff llywodraethol fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi dogfen ymgynghori. Mae'r ddogfen hon yn gwneud y canlynol:

- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
- Ymateb i'r materion hyn trwy gyfrwng eglurhad neu wrthod y pryderon gyda rhesymau ategol; a hefyd
- Cyflwyno barn Estyn ar rinweddau'r cynnig at ei gilydd.

2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei ddsbarthu i'r canlynol:

Cyrff Llywodraethol, Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid a Staff:	
<ul style="list-style-type: none"> • Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair • Ysgol Gatholig Sant Ffransis • Ysgol Gatholig Teilo Sant • Ysgol Gymunedol Doc Penfro • Ysgol Gymunedol Pennar 	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgol Gynradd Priordy Cil-maen • Ysgol Gelli Aur • Ysgol y Penrhyn • Ysgol Harri Tudur
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr Addysg – Esgobaeth Mynyw • Ymddiriedolwyr Esgobaeth Mynyw 	Cyfarwyddwr Addysg – Esgobaeth Tyddewi
Gweinidogion Cymru	Estyn
<ul style="list-style-type: none"> • Angela Burns AC – Etholaeth • Helen Mary Jones AC – Rhanbarthol • Joyce Watson AC – Rhanbarthol • Eluned Morgan AC – Rhanbarthol • Neil Hamilton AC - Rhanbarthol • Simon Hart AS • Y Cynghorydd AW Wilcox • Y Cynghorydd BJ Hall • Y Cynghorydd P Dowson • Y Cynghorydd J Beynon • Y Cynghorydd J Harvey • Y Cynghorydd P Llewellyn 	<ul style="list-style-type: none"> • NUT • NASUWT • UCAC • ATL • NAHT • ASCLE • UNISON • GMB
ERW – Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Uned Gludiant y Cyngor Sir
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys	Cyngor Tref Doc Penfro Cyngor Tref Penfro Cyngor Tref Aberdaugleddau
Darparwyr meithrinfeydd annibynnol: <ul style="list-style-type: none"> • Meithrinfeydd Dydd Cofrestredig / Cylchoedd Chwarae • Gwarchodwyr Plant Cofrestredig 	Partneriaeth Gofal Plant a Phobl Ifanc – Y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Grŵp Dysgu
○ Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Rhoi Cymunedau Sir Benfro'n Gyntaf

Yn ogystal, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu i holl ymgynghoreion sydd wedi gofyn yn benodol am gael clywed ei fod ar gael.

3. Trefniadau Ymgynghori

3.1 Trefniadau Cyffredinol

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori ar 15^{fed} Hydref 2018; roedd y dyddiad hwn hefyd yn cynrychioli dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 30^{ain} Tachwedd 2018. Dosbarthwyd y Ddogfen Ymgynghori / anfonwyd dolenni cyswllt at holl ymgynghoreion statudol a restrwyd ar dudalen 3 y ddogfen honno.

Gwelwyd bod y Ddogfen Ymgynghori ar gael ar wefannau'r Cyngor Sir

www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud ac Esgobaeth Mynyw

www.menevia.org.

3.2 Ymgynghori ag Esgobaeth Mynyw

O ystyried statws Wirfoddol Gymorthedig Ysgol y Santes Fair, ymgynghorwyd â Chyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Mynyw ac Ymddiriedolwyr yr Esgobaeth. Digwyddodd hyn cyn cyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori a phenderfyniad Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair i ymgynghori. Caniatwyd cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod i'r diben hwn.

Yn ei ymateb ar ran ymddiriedolwyr Esgobaeth Mynyw, dywedodd yr Esgob *“Mae'r Ymddiriedolwyr yn deall bod hwn wedi bod yn benderfyniad anodd i'r Corff Llywodraethol ei wneud ac maent yn drist ynghylch posibilrwydd unrhyw gwtogiad yn narpariaeth addysg Gatholig yn yr Esgobaeth... Wedi darllen eich llythyr a thrafod y rhesymau dros eich cais... gyda'r gofid mwyaf y mae'r Ymddiriedolwyr yn cytuno a'ch cais”*.

4. Gohebiaeth Ymgynghori

4.1 Faint o Ymatebion a Dderbyniwyd a'u Proffil

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae proffil yr atebwyr i'w weld isod ac mae'n adlewyrchu'r holl ddisgrifiadau a roddwyd. Mae'r proffil hwn yn dangos swyddogaeth ymatebwyr fel rhan o'r ymgynghori ac fe all ddangos swyddogaethau lluosog, e.e. rhiant, aelod o'r staff a phreswilydd lleol; o ganlyniad, nid yw'r cyfanswm yn gyfartal â chyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd.

Disgyblion	11
Trigolion leol	9
Rieni	5
Staff	4
Cyn rieni	2
Mamgu neu Tadcu	1
Cyn disgyblion	1
Rieni cyn ysgol	1
Estyn	1
Cyngor Sir Penfro	1

4.2 Ymateb Cyffredinol

Derbyniwyd 19 ymateb gan ymgynghorai a ddewisodd ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu gopi caled a ddarparwyd, gofynnwyd iddynt ymateb i un cwestiwn er mwyn penderfynu pa un o'r datganiadau canlynol oedd yn adlewyrchu eu barn orau. Mae'r canfyddiadau fel a ganlyn:

Nodwch ba un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig:

	Cyfanswm	
	Nifer	%
Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall	1	5.3%
Rwy'n cefnogi'r cynnig	10	52.6%
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	8	42.1%

Mae'r pwyntiau canlynol yn cynrychioli crynodeb o'r pryderon a'r sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai ag ymateb y Cynigiwr. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd ynglyn a'r cynnig wedi'u cynnwys yn **ATODIAD A**.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a Fynegyd
Pryder bod ysgolion lleol eraill eisoes yn orlawn ac y dylai'r plant o Santes Fair gael eu	Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y mwyaf o'r ysgolion lleol amgen yn orlawn. Yn Ysgol Gymunedol Doc Penfro, roedd maint dosbarth cyfartalog ar ddechrau blwyddyn academaidd

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a FyNEGwyd
hanfon i ysgolion gyda niferoedd llai.	<p>2018/19 yn 27.6 heb ddim mwy na 30 o ddisgyblion. Mewn perthynas ag Ysgol Pennar, mae'r niferoedd cyfwerth yn 27.5 ar gyfartaledd ac un dosbarth gyda mwy na 30 o ddisgyblion. Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi bod gan yr ysgolion uchod ddosbarthiadau grŵp un flwyddyn; mae gan y ddau ddosbarth yn Ysgol y Santes Fair nifer o flynyddoedd.</p> <p>Ni ellir "anfon" disgyblion i ysgolion llai eraill. Mae dewis yr ysgol yn fater o ddewis rhiant a chymhwyso trefniadau Derbyn y Cyngor.</p>
Bydd plant teuluoedd Catholig dan anfantais yn eu haddysg grefyddol os yw'r ysgol hon ar gau. Mae'r amser teithio ychwanegol i ysgolion Catholig eraill yn yr esgobaeth yn gostus ac yn cryfhau diwrnod ysgol y plant hyn.	Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r holl ddisgyblion sy'n aros ar y gofrestr yn Santes Fair ar ddyddiad y gweithrediad, y gallant barhau i dderbyn addysg Gatholig a bod cludiant yn cael ei ddarparu i Ysgol St Francis yn Aberdaugleddau. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Gatholig y Santes Fair yn anfantais i rai, fodd bynnag, mae darpariaeth Catholig arall 8.5 milltir i ffwrdd yn unig.
Teimlad o thristwch gan y posibilrwydd o gau ysgol Gatholig leol	<p>Mae'r corff llywodraethol a'r Esgobaeth hefyd yn drist gan y posibilrwydd o gau'r ysgol. Fodd bynnag, bu ymdrechion dro ar ol tro i 'achub' yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys mewnbwn sylweddol gan y Cyngor, o ran cymorth ariannol a chefnogaeth broffesiynol, a broceri'r cydweithrediad ag Ysgol Gatholig Sant Francis yn Milford Aberdaugleddau.</p> <p>Mae'n anffodus bod colli sylweddol disgyblion o'r ysgol wedi arwain at gyllideb na all gynnal yr ysgol. Yn ychwanegol mae'n ffaith nad yw'r corff llywodraethol wedi gallu recriwtio pennaeth parhaol i'r ysgol.</p>

4.3 Llais y Disgybl

Derbyniwyd 11 ymateb gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair.

Mae'r pwyntiau canlynol yn cynrychioli crynodeb o'r pryderon a'r sylwadau a dderbyniwyd gan ddisgyblion yr ysgol ag ymateb y Cynigiwr. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan ddisgyblion wedi'u cynnwys yn **ATODIAD A**.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a Fyngwyd
<ul style="list-style-type: none"> ○ Ni ddylai Ysgol y Santes Fair gau ○ Rwy'n hoffi'r ysgol Gatholig gan ei fod yn dysgu ni am Dduw, Mair a Iesu Grist ○ Gallwn ni gael rhagor o blant i ddod i'r ysgol trwy ddangos i rieni pa mor dda yr ydym ○ Dylai ysgolion Gatholig eraill gwneud lle i'r plant hynny sydd am dderbyn addysg grefyddol ○ Ni ddylai'r ysgol gau gan bydd yr athrawon yn colli eu swyddi ○ Dylwn ni gynnal parti er mwyn i pobl ddod at eu gilydd i godi arian. Yn ogystal cael mwy o arian gan elusennau ac hysbyusu'r ysgol er mwyn dangos i blant eraill pa mor dda yw'r ysgol. 	<p>Mae gan rieni sy'n byw yn ardal Doc Penfro ystod ehangach o opsiynau ysgol wrth ystyried lle i anfon eu plant i'r ysgol. Mae'n amlwg bod rhieni wedi dewis ysgolion heblaw am Santes Fair yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gall hyn fod oherwydd sawl rheswm. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn niferoedd disgyblion yn yr ysgol.</p> <p>Mae ysgolion Catholig eraill yn Sir Benfro, gyda Ysgol St Francis yn Aberdaugleddau a St Teilo yn Ninbych-y-pysgod y rhai agosaf. Mae gan rieni bob hawl i fynegi dewis ar gyfer y naill neu'r llall o'r ysgolion hyn ac mae lleoedd ar gael.</p> <p>Bydd y Cyngor Sir yn gweithio gyda'r corff llywodraethol a chyda undebau i leihau'r amhariad ar gyflogaeth staff. Mae ganddo hanes profedig o ran cefnogi staff mewn sefyllfaoedd o'r fath.</p> <p>Dim ond ateb tymor byr y gall codi arian yn y modd a awgrymir ac nid yw'n gynnig hyfyw.</p>

4.4 Ymateb gan Gyngor Sir Penfro

Derbyniodd y corff llywodraethol ymateb i'r cynnig gan y Cyng. David Lloyd, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Wnaeth y Cyng. Lloyd cydnabod sefyllfa anodd y corff llywodraethol mewn perthynas a'i ystyriaeth o ddyfodol yr ysgol, ond o ystyried yr ystod o ffactorau perthnasol a amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori, mae'n cefnogi'r penderfyniad i ymgynghori ar gau yr ysgol.

Mewn ymateb i gais Esgobaeth Menevia i gynnal dewis i rieni sydd am gael mynediad i addysg Gatholig i'w plant, dywedodd y Cyng. Lloyd, tra ei fod yn cydnabod dyhead yr Esgobaeth am hyn, prin oedd tystiolaeth o alw yn yr ardal. Cadarnhaodd Cyng. Lloyd, o gofio bod darpariaeth amgen yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Francis yn Aberdaugleddau, byddai cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n weddill yn Santes Fair adeg cyflwyno'r cynnig os ydynt am barhau â'u haddysg yn yr ysgol honno.

Mae ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ynghlwm yn **ATODIAD B**.

4.5 Ymateb Estyn

Derbyniodd y corff llywodraethol ymateb manwl i'r cynnig oddi wrth Estyn. Ei gasgliad at ei gilydd ynghylch y cynnig yw'r canlynol:

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o addysg yn yr ardal, o leiaf

Mae ymateb llawn Estyn i'r cynnig yn **ATODIAD C**.


Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a Fynegwyd									
<p>“Mae'r cynigiwr yn nodi pum mantais ddisgwyliedig i'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon clir sut mae'r cynigiwr yn ystyried bod tri o'r rhain yn fanteision”. Y rhain yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae darpariaeth Gatholig arall ar gael mewn lleoedd eraill, yn arbennig Ysgol Gatholig Sant Francis (Aberdaugleddau) ac Ysgol Gatholig Sant Teilo (Dinbych-y-pysgod) 2. Mae lleoedd ar gael mewn ysgolion lleol eraill ar gyfer disgyblion fydd yn cael eu dadleoli 3. Mae tebygolrwydd cryf y byddai'r ysgol yn cael ei rhoi mewn categori swyddogol pe bai'n cael ei harolygu, heb lawer o obaith o ddod allan o'r categori hwnnw o ganlyniad i arweinyddiaeth ansefydlog. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r corff llywodraethol o'r farn ei fod yn fanteisiol y gall unrhyw riant sy'n dymuno i'w plentyn barhau i dderbyn addysg Gatholig barhau i wneud hynny mewn ysgolion sydd o fewn pellter rhesymol i Ysgol y Santes Fair. 2. Mae'r corff llywodraethol hefyd yn ystyried ei bod yn fantais bod yna ysgolion lleol eraill sydd â lleoedd ar gael i ddarparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u dadleoli. Ystyrir y byddai penderfyniad y corff llywodraethu i ystyried cau yn llawer anoddach pe na allai rhieni ddod o hyd i leoedd eraill mewn ysgolion gerllaw. 3. Cydnabyddir na ddylid ystyried y pwynt hwn fel mantais. Fodd bynnag, mae'r pwynt hwn wedi bod yn ffactor sy'n cyfrannu at feddwl y corff llywodraethu ynglŷn â dyfodol yr ysgol. 									
<p>Nid yw'r cynigiwr wedi egluro beth yw'r pellter rhwng Ysgol y Santes Fair a Ysgol Sant Ffransis na faint o amser sydd ei angen i deithio i Ysgol Gatholig Sant Ffransis. Yn ogystal, mae'r cynigiwr wedi awgrymu Ysgol Gatholig Teilo Sant fel darpariaeth amgen bosibl, on nid yw wedi darparu gwybodaeth ynghylch y pellter o Ysgol y Santes Fair, yr amser sydd ei angen ar gyfer teithio na manylion darpariaeth unrhyw drafnidiaeth i'r ysgol hon.</p>	<p>Mae pellteroedd ac amseroedd rhwng Ysgol Gatholig y Santes Fair ac ysgolion eraill o'r un categori iaith yn yr ardal i'w gweld ar Tudalen 33 o'r Ddogfen Ymgynghori.</p> <p>Mewn perthynas â darpariaeth Gatholig amgen, mae'r wybodaeth ganlynol yn berthnasol:</p> <table border="1" data-bbox="816 1633 1390 1751"> <thead> <tr> <th></th> <th>St Ffransis</th> <th>Teilo Sant</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Pellter</td> <td>8.5 milltir</td> <td>11.4 milltir</td> </tr> <tr> <td>Amser</td> <td>19 mun.</td> <td>21 mun.</td> </tr> </tbody> </table>		St Ffransis	Teilo Sant	Pellter	8.5 milltir	11.4 milltir	Amser	19 mun.	21 mun.
	St Ffransis	Teilo Sant								
Pellter	8.5 milltir	11.4 milltir								
Amser	19 mun.	21 mun.								
<p>Mae'r cynigiwr yn rhestru niferoedd y lleoedd gwag mewn ysgolion cyfagos. Mae wedi dangos bod digon o leoedd yn yr ysgolion i dderbyn disgyblion o ysgol y</p>	<p>Fe'i hystyrir yn annhebygol iawn y bydd pob disgybl sy'n aros yn Santes Fair yn gofyn am leoedd mewn ysgolion Catholig amgen. Fel yr amlinellir ym</p>									

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a Fynegwyd
<p>Santes Fair. Fodd bynnag, nid oes gan ysgol Gatholig Sant Ffransis ddigon o leoedd i dderbyn yr holl ddisgyblion a ddadleolir o ysgol y Santes Fair. Nid yw'r cynigiwr wedi dangos yn glir sut y bydd yn mynd i'r afael a'r mater os bydd pob disgybl o ysgol y Santes Fair yn dewis mynd i Ysgol Sant Ffransis. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod gan ysgol Gatholig Teilo Sant leoedd i naw disgybl yn unig.</p>	<p>Mharagraff 3.1 y Ddogfen Ymgynghori, dim ond naw o blant Catholig a fedyddiwyd oedd ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2018.</p> <p>Dylid hefyd nodi bod corff llywodraethol perthnasol yr ysgolion hynny yn gyfrifol am drefniadau derbyn ysgolion St Francis a St. Teilo. Nid yw'r cynigydd wedi derbyn ymateb gan y naill ysgol neu'r llall i nodi pryder na fyddent yn gallu derbyn disgyblion wedi'u disodli o Santes Fair.</p>
<p>Ymddengys bod y cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Daw i'r casgliad yn rhesymol nad oes unrhyw effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn cyfeirio o gwbl at gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol.</p>	<p>Nid yw'r cynigydd wedi cyfeirio at Gynllun Strategol Cymru mewn Addysg oherwydd ei fod wedi casglu'n rhesymol nad yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fel yr amlinellwyd ym Mhara. 5.3.5 o'r Ddogfen Ymgynghori, mae Ysgol Gelli Aur (3-11) ac Ysgol Caer Elen (3-16) a / neu Ysgol y Preseli (11- 19) yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant yr ardal.</p>
<p>Nid yw'n ymddangos bod y cynigiwr wedi gwneud sylwadau'n uniongyrchol ar sut y bydd unrhyw amhariad posibl i ddysgwyr yn cael ei leihau.</p>	<p>Bydd Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn parhau i ddarparu darpariaeth addysg ffydd i'w disgyblion hyd nes y caiff cynnig y corff llywodraethu ei weithredu, os penderfynir hynny. Mae'r corff llywodraethol yn cydnabod hawl rhieni i fynegi dewis am ysgolion eraill yn y cyfamser, ac os bydd angen, bydd y disgyblion a'r rhieni yn cael eu cynorthwyo yn y broses hon.</p>

ATODIAD A

Cyf.	Sylwadau
2	<p>Rwy'n cefnogi'r cynnig i gau'r ysgol; fodd bynnag, mae'r ysgolion lleol cyfagos eraill eisoes yn orlawn, ac rwy'n pryderu y bydd Ysgol Gymunedol Doc Penfro yn cymryd plant Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair (yn unol â'r hyn sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf), a bydd hynny'n gorlenwi'r ystafelloedd dosbarth lle mae yna brinder staff yn barod i'w goruchwyllo. Dylai plant Ysgol y Santes Fair ORFOD cael eu hanfon i ysgolion sydd â niferoedd llai o blant, e.e. ysgolion Llandyfái, Penrhyn, Gelli Aur, neu Cosheston.</p> <p>Dydw i ddim yn credu bod yna alw am ysgol Gatholig yn yr oes hon.</p>
3	<p>Er bod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi cymorth i'r ysgol yn ystod y ddwy flynedd y bu yn y categori cymorth coch, nid yw'r ysgol wedi datblygu. Yn anffodus, nid yw nifer y plant Catholig sy'n weddill yn cyfiawnhau cadw'r ysgol yn agored.</p> <p>Dim ond ychydig o blant Catholig sydd ar ôl yn yr ysgol. Gall y plant hyn fynychu ysgolion Teilo Sant neu San Ffransis os bydd eu rhieni'n frwd dros addysg Gatholig.</p>
4	<div style="background-color: black; width: 100%; height: 20px; margin-bottom: 5px;"></div> <p>(sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</p>
6	<p>Rwy'n teimlo y bydd plant o deuluoedd Catholig o dan anfantais o ran eu haddysg grefyddol os bydd yr ysgol hon yn cau. Bydd yr amser teithio ychwanegol i ysgolion Catholig eraill yr Esgobaeth yn gostus, a bydd yn ychwanegu at ddiwrnod ysgol y plant hyn.</p> <p>Rwy'n pryderu y bydd addysg Gatholig yn dod i ben.</p> <p><i>(Awgrym amgen)</i> Penodi Pennaeth a fyddai'n gallu rhannu ei swydd ag ysgol arall yn yr Esgobaeth</p>

Cyf.	Sylwadau
7	<div style="background-color: black; width: 100%; height: 1.2em; margin-bottom: 5px;"></div> <p>(sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</p>
9	<p>Rwy'n credu bod y gostyngiad dramatig yn y niferoedd wedi deillio o'r sïon a oedd ar led yn gynharach yn y flwyddyn ynghylch cau'r ysgol. Hefyd, gan nad yw rhieni'n hoffi clywed am ymddygiad gwael eu plant, byddai'n ddiddorol gwybod a yw eu hymddygiad wedi gwella ar ôl iddynt symud ysgol. Mae rhieni'r oes hon yn beio'r ysgolion os nad yw eu plant yn gwneud yn dda yn yr ysgol – dylent roi cynnig ar dynnu iPads oddi ar eu plant ac efallai y byddent yn dysgu'n well. O'm profiad i, mae athrawon yr ysgol hon yn rhagorol, ac mae plant yn ffynnu'n well mewn dosbarthiadau llai. Mae llawer o arian wedi cael ei wario ar yr ysgol yn ddiweddar – ai gwastraff arian oedd hynny?</p> <p>Dydw i ddim yn credu bod yna lawer o blant Catholig yn yr ysgol, ond onid yw'n ardderchog gweld bod pob ffydd yn gallu cydweithio? Gyda llaw, dydw i ddim yn Gatholig fy hun.</p> <p><i>(Awgrym amgen)</i></p> <p>Dydw i ddim yn siŵr o'r hyn y gellid ei wneud 'nawr. Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl yn credu y bydd yr ysgol yn cau beth bynnag 'nawr. Efallai y gellid penodi Pennaeth nad yw'n Gatholig. Yn fy marn i, mae'n ymddangos nad oes gan lawer o'r llywodraethwyr eu llais eu hunain, ac maent yn dueddol o gytuno â'r Pennaeth. Gellid cwtogi ar nifer y staff ac adeiladu ysgol wych unwaith yn rhagor. A yw pob ysgol Gatholig yng Nghymru yn mynd i gau 'nawr? Beth am y cylch chwarae Dechrau'n Deg? Rydym yn byw mewn byd amlddiwylliannol.</p>
11	<p>Rwy'n credu y byddai cau ysgol gynradd arall yn yr ardal yn drueni, ond os bydd y niferoedd yn gostwng i lefelau anghynaliadwy, ni allaf weld yr un opsiwn arall.</p>

Cyf.	Sylwadau
	<p>Ni allaf weld bod yna ddewis amgen hyfyw ar gael. Hyd y gwn i, nid oes yna ysgol gynradd Gatholig arall sy'n ddigon agos i alluogi'r ysgolion i uno neu i blant Ysgol y Santes Fair ei mynychu. Yn fy marn i, byddai teithio i Hwlfordd bob dydd yn rhy bell i blant oed cynradd, hyd yn oed pe byddai yna le yn Ysgol Mair Wiwlan.</p> <p><i>(Awgrym amgen)</i> Mae'n anodd cynnig awgrymiadau heb wybod yr holl ffeithiau a ffigurau. Dydw i ddim yn gwybod, ond ar ryw bwynt bydd y nifer ar y gofrestr yn golygu na fydd cynnal yr ysgol yn opsiwn hyfyw.</p>
13	<p></p> <p>(sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</p>
14	<p>A minnau, ar hyn o bryd, yn Bennaeth Dros Dro ar Ysgol y Santes Fair, ni allaf weld yr un datrysiad i sefyllfa'r ysgol; felly, gyda thristwch mawr, rwy'n cefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Byddwn yn annog Cyngor Sir Penfro i gefnogi'r Esgobaeth trwy barhau'n ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw riant sy'n dymuno i'w blentyn gael addysg Gatholig yn gallu manteisio ar hynny. Mewn cyfnod o gyni ariannol, mae'n RHAID i hyn gynnwys ymrwymiad i gynnal cludiant ysgol i ddisgyblion sy'n byw y tu hwnt i uchafswm y pellter cerdded a ragnodir i'r ysgol, neu, fel arall, bydd rhieni tlotach yn colli'r cyfle hwn.</p>
16	<p>Mae'r cynnig i gau'r ysgol wedi torri fy nghalon. Mae'r bobl sy'n rhan o gymuned yr ysgol yn poeni'n fawr amdani ac yn teimlo eu bod wedi cael cam gan bawb sydd y tu allan iddi, gan gynnwys yr Eglwys, yr adran addysg, ac ambell riant a drodd at Facebook i ladd arni. Mae'r cynnig wedi amlygu darlun gwael iawn o'r athrawon, ond, mewn gwirionedd, roeddent wedi troi pob carreg i blesio pob cynghorydd a fynnai mai ei ffordd ef oedd orau – o edrych yn ôl, dylai'r cyngor a'r cymorth a roddwyd fod wedi bod yn gydgyssylltiedig ac yn ymarferol. NID DYNA FU'R HANES, ac efallai y dylid dysgu gwersi ar sail hynny. Pam ar wyneb y ddaear y rhoddwyd caniatâd i rieni symud eu plant cyn, yn ystod a thrwy gydol y flwyddyn?</p>

Cyf.	Sylwadau
	<p>Os bydd rhiant yn dymuno i'w blentyn gael addysg Gatholig, yna dylai'r rhiant gael dewis yr ysgol y bydd yn ei mynychu. Efallai fod Dinbych-y-pysgod ychydig ymhellach i ffwrdd, ond dylid ystyried na fyddai angen croesi'r bont mewn tywydd gwael.</p> <p><i>(Awgrym amgen)</i> Gellid gofyn am opsiynau cyllido amgen gan ddiwydiannau lleol, a gellid ymgeisio amdanynt trwy gyfrwng grantiau a ffynonellau a allai helpu i gadw'r ysgol yn agored, a hynny er mwyn cynyddu'r niferoedd. Mae'r prif broblemau o ran ymddygiad wedi cael eu datrys gan fod y plant dan sylw wedi symud i'r ysgol uwchradd, lle mae'r problemau'n parhau. Byddai'n rhaid adleoli neu ddiswyddo rhai staff cymorth tan y byddai'r niferoedd yn codi drachefn.</p>
17	<p>Rwy'n teimlo bod colli'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Noc Penfro yn drueni. Rwyf ar ddeall mai nifer fechan o unigolion a fedyddiwyd yn Gatholigion sy'n mynychu Ysgol y Santes Fair. Fodd bynnag, mae rhieni'n dewis anfon eu plant i Ysgol y Santes Fair p'un a ydynt yn Gatholigion ai peidio, a hynny gan fod arnynt eisiau i'w plant gael addysg sy'n seiliedig ar werthoedd Catholig. Rwy'n deall y rheswm dros y cynnig, yr anawsterau o ran recriwtio Pennaeth, a hyfywedd ariannol yr ysgol o ganlyniad i'r cyn lleied o ddisgyblion sydd ynddi.</p> <p>Rwy'n credu ei bod yn bwysig parhau i ddarparu addysg Gatholig yn Ysgol y Santes Fair ar gyfer y rheiny y mae arnynt ei heisiau, p'un a ydynt yn unigolion sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion ai peidio. Mae'n bwysig rhoi cyfle i blant barhau â'u haddysg Gatholig, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, mewn unrhyw ysgol Gatholig yn yr ardal a fyddai'n diwallu eu hanghenion yn y modd gorau, ym marn eu rhieni.</p>
18	<p>Mae'n drueni mawr fod yr ysgol deuluol hon yn cau. Mae'r staff presennol yn teimlo eu bod wedi cael cam a'u bod wedi cael eu beio am y diffygion a amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori er eu bod, mewn gwirionedd, wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau i geisio gwella'r safonau a'r ymddygiad er mwyn achub yr ysgol. Nid yw'r ysgolion eraill na'r cyhoedd wedi cael gwybod am hyn – felly, hyd y gwyddant hwy, y staff sydd ar fai am gau'r ysgol. Mae'n hynod o drist. Dewisodd y rhieni Ysgol y Santes Fair oherwydd yr ethos Gristnogol a'r ymdeimlad croesawgar sy'n perthyn iddi. Cyfeirir yn aml at natur ofalgar a chartrefol y staff, ac mae llawer o bobl yn pryderu na fyddai'r un ymdeimlad yn perthyn i ysgolion mwy. Dyma deulu sydd wedi cael ei hollti'n ddau.</p>

Cyf.	Sylwadau
	<p>Os bydd rhieni'n dymuno i'w plentyn gael addysg Gatholig, dylid cynnig y ddarpariaeth honno mor lleol â phosibl. Rwy'n credu bod Ysgol San Ffransis, Aberdaugleddau wedi cael ei chrybwyll yn y cynnig, ond rwy'n credu y dylid rhoi ystyriaeth i Ysgol Teilo Sant, Dinbych-y-pysgod hefyd, oherwydd byddai hynny'n golygu na fyddai'n rhaid defnyddio Pont Cleddau.</p> <p><i>(Awgrym amgen)</i></p> <p>Gallai un athro a chynorthwywyr addysgu fod wedi bod yn opsiwn arall i ailgodi'r niferoedd, ond ni fyddai hynny'n opsiwn hyfiaw mwyach gan fod y plant wedi trefnu lleoliadau yn barod ar gyfer y cyfnod ar ôl y Nadolig. Byddai wedi bod yn braf pe byddem wedi gallu parhau'n agored tan ddiwedd y flwyddyn ysgol, oherwydd byddai Ysgol y Santes Fair wedi dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed ym mis Medi 2019 – ni fyddwn yn gallu dathlu 'nawr. Byddai hyn wedi bod yn gyfle perffaith i arddangos yr agweddau da yn hytrach na chanolbwyntio ar y newyddion gwael. Mae'n ddealladwy na fyddai ysgol sydd â chyn lleied o blant, a llai fyth ar y rhestr aros, yn gallu parhau er gwaethaf pob ewyllys da yn y byd. Mae'n drist iawn.</p>
19	<p>Rwyf wedi fy nhristáu bod y sefyllfa wedi cyrraedd y fan hon, ac, o ddarllen y cynnig, rwy'n deall y rhesymau dros gyflwyno'r cynnig, a bod yna lawer o broblemau i'w goresgyn. Fodd bynnag, fel rhiant, rwy'n teimlo y byddem wedi gallu helpu i weddnewid pethau pe byddem wedi cael gwybod am y sefyllfa.</p> <p>Byddwn wedi hoffi'n fawr pe byddai fy mhlant wedi gallu parhau â'u haddysg Gatholig, ond, os bydd yr ysgol yn cau, rwy'n teimlo na fyddai hynny'n bosibl. Bydd y daith i Ysgol San Ffransis neu Ysgol Teilo Sant yn ychwanegu amser sylweddol at ddiwrnod ysgol y plant gan eu gwneud yn fwy blinedig, ac rwy'n credu y byddai hynny'n niweidiol i'w haddysg. Rwyf hefyd yn credu eu bod yn rhy ifanc o lawer i fynd ar fws mini ar eu pen eu hunain, pe byddai cludiant o'r fath yn cael ei ddarparu. Yn drydydd, byddai'n eithaf costus pe byddwn yn gyrru fy mhlant i'r ysgol, yn enwedig yn achos Ysgol San Ffransis, oherwydd byddai'n rhaid i mi dalu tollau'r bont bedair gwaith y dydd, a hynny'n ychwanegol at fy nghostau tanwydd. Pe byddai Ysgol y Santes Fair yn cau, rwy'n ofni y byddai'n rhaid i'w haddysg Gatholig ddod i ben yn anffodus.</p> <p><i>(Awgrym amgen)</i></p>

Cyf.	Sylwadau
	<p>Rwy'n meddwl tybed pam y byddai'n rhaid i'r Pennaeth newydd fod yn Gatholig, yn enwedig o gofio ei bod yn anodd iawn dod o hyd i ymgeiswyr o'r fath. Oni ellid penodi Pennaeth a fyddai'n barod i gydymffurfio â'r delfryd Catholig? Yn amlwg, mae'r diffyg cysondeb o ran sicrhau Pennaeth i'r ysgol wedi effeithio'n negyddol iawn arni, ynghyd â chyfrannu at benderfyniad cynifer i symud eu plant o'r ysgol. Gan fod yr ymgynghoriad hwn bellach wedi cael ei gynnig, mae rhagor o blant wedi cyflwyno eu ceisiadau trosglwyddo i ysgolion eraill, sy'n golygu y bydd yna lai fyth o blant yn Ysgol y Santes Fair, gan olygu y bydd y cynnig i gau'r ysgol, yn anoche ac yn drist, yn dod yn fwy hyfyw.</p>
PV1	<p>Byddai cau'r ysgol hon yn syniad gwael oherwydd rwyf wedi bod ynddi er pan oeddwn yn ddwyflwydd oed, ac rwyf wedi dysgu llawer.</p> <p>Rwy'n hoffi'r ysgol Gatholig oherwydd rydym yn dysgu am Dduw, Mair ac Iesu.</p> <p>(Awgrym amgen) Gallem gael rhagor o blant i ddod i'n hysgol trwy ddangos i'r rhieni pa mor dda y mae'r disgyblion. Gallem ysgrifennu at rieni i ddweud pa mor dda yr ydym.</p>
PV2	<p>Dydw i ddim am i'r ysgol hon gau oherwydd rwy'n ei charu o waelod fy nghalon, a dydw i ddim eisiau gadael. Byddaf yn gweld eisiau fy athrawon ac ni fyddaf fyth yn eu hanghofio. A dydw i ddim am newid fy ngweddïau. Dydw i ddim am adael oherwydd rydym yn cael hwyl yma. A dydw i ddim am adael fy ffrindïau. Rwy'n hoff iawn o'r ysgol hon.</p> <p>Rwy'n credu y dylai ysgolion Catholig eraill wneud lle ar gyfer plant gan fod ambell ysgol yn cau. Felly, bydd plant yn gallu parhau i gael addysg grefyddol.</p> <p>(Awgrym amgen) Denu rhagor o blant i'r ysgol hon fel na fydd yn rhaid i mi adael fy athrawon, FY ffrindïau, na'm Cynorthwydd Cymorth Dysgu.</p>

Cyf.	Sylwadau
PV3	<p>Dydw i ddim yn credu y dylai'r ysgol hon gau, oherwydd meddyliwch am yr athrawon neis a allai golli eu swyddi a'r plant a allai golli eu ffrindiau. Nid oes gwahaniaeth os bydd pobl yn sôn am nifer y disgyblion neu'n dweud ein bod yn cael addysg wael, oherwydd nid yw hynny'n wir – yr hyn sy'n bwysig yw'r plant a'r athrawon, felly peidiwch â chau'r ysgol. Rwy'n hoff iawn o'r ysgol hon, yn union fel y mae'r athrawon a'r bobl eraill sy'n brwydro i'ch atal rhag ei chau.</p> <p>Does dim llawer o ysgolion Catholig yn yr ardal, ond beth am y bobl hynny sy'n Gatholigion ac sy'n dymuno anfon eu plant i ysgol a fydd yn eu helpu i ddatblygu'n Gatholigion eu hunain, ac i ddilyn ôl troed eu rhieni? Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair fyddai'r ysgol iddynt hwy. Gallwch weld fod yr ysgol hon yn bwysig iawn, oherwydd pe byddech yn ei chau, byddech yn cael gwared â ffordd y rhiant o ymgorffori'r grefydd Gatholig yn rhan o'i fywyd ei hun neu fywyd ei blentyn.</p> <p>Os ydych yn dymuno mynd i ysgol Gatholig, rwy'n credu y dylech gael yr hawl i wneud hynny, hyd yn oed os nad ydych yn Gatholig eich hun, oherwydd mae ysgolion Catholig yn eich addysgu am stori Iesu a'r modd y creodd Duw y byd.</p> <p>(Awgrym amgen) Dylem gynnal parti er mwyn galluogi pobl i ddod at ei gilydd a chodi arian. Gallem gerdded i lawr y stryd, gan gario arwyddion a gweiddi 'achub ein hysgol', a gallai pobl eraill ymuno â'n gorymdaith.</p>
PV4	<p>Dydw i ddim yn credu y dylai'r ysgol gau oherwydd bydd yr holl athrawon yn colli eu swyddi, ac rwyf wedi bod yma er pan oeddwn yn ddyflwydd oed a byddaf yn gweld eisiau'r ysgol.</p> <p>Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod ysgolion Catholig eraill yn gwneud lle ar gyfer plant y mae eu rhieni am iddynt fynd i ysgol Gatholig, er mwyn eu galluogi i weddïo a mynd i'r eglwys.</p> <p>(Awgrym amgen) Cynnal digwyddiadau codi arian a rhannu'r elw rhwng yr ysgol ac elusen. Gallem wisgo ein dillad ein hunain a thalu 50c, neu gynnal stondin cacennau.</p>

Cyf.	Sylwadau
PV5	<p>Rwy'n credu bod cau'r ysgol yn dderbyniol, ac eto'n annerbyniol, ar yr un pryd. Byddaf yn gweld eisiau fy ffrindiau.</p> <p>Ni fydd fy mam yn fy anfon i ysgol Gatholig, ac mae hynny'n iawn, ond os bydd plant eraill yn fy nosbarth yn dymuno mynd i ysgol Gatholig, dylent allu gwneud hynny.</p> <p>(Awgrym amgen) Cynnal llawer o ddigwyddiadau er mwyn codi arian i helpu'r ysgol i barhau'n agored. Gallem werthu pethau er mwyn codi arian i gadw'r ysgol yn agored.</p>
PV6	<p>Mae'r ysgol hon wedi'i sefydlu ers nifer o flynyddoedd, a byddai cau ysgol wych yn dorcalonnus. Rwyf wedi cael pedair blynedd dda yma ac rwy'n teimlo'n ddiogel yma. Bydd yna fwch anferthol ar ei hôl.</p> <p>Rwy'n credu y dylem gael yr hawl i fynd i ysgolion Catholig. Gan nad oes yna lawer o ysgolion Catholig yn yr ardal, heblaw'r ysgol yn Ninbych-y-pysgod, rwy'n credu y dylai'r ysgol honno wneud lle i ddisgyblion.</p> <p>(Awgrym amgen) Cael rhagor o arian gan elusennau a hysbysebu'r ysgol i blant eraill, gan arddangos ei rhinweddau. Dylid dweud wrthynt fod gennym gyfarpar a chyfrifiaduron da, ynghyd ag athrawon anhygoel.</p>
PV7	<p>Dydw i ddim yn credu y dylai'r ysgol gau oherwydd rydym yn cael addysg wych yma. Does dim ots gen i os bydd pobl yn dweud ein bod yn cael addysg wael, oherwydd mae'r addysg rydym yn ei chael yn iawn!</p> <p>Rwy'n credu y dylem gael yr hawl i fynd i ysgol Gatholig arall, os ydym am wneud hynny.</p> <p>(Awgrym amgen) Os na fydd yr ysgol yn cau, rwy'n credu y bydd arnom angen rhagor o gyfarpar os bydd yr ysgol yn parhau'n agored. Dydw i ddim yn gwybod sut, ond mae plant yn colli cyfarpar y maes chwarae heb yr un rheswm o</p>

Cyf.	Sylwadau
	<p>gwbl. Un funud mae'r cyfarpar yno, a'r funud nesaf maent wedi diflannu. A allwn ni roi'r gorau i ddweud: "Dw i wedi colli fy mhêl – carma!"?</p> <p>Rwy'n credu y dylem benodi llysgenhadon a fyddai'n gallu gofalu am bethau. Dylid dweud wrth ragor o bobl i ddod i'n hysgol gan ei bod yn ysgol wych, yna byddai'n gallu parhau'n agored.</p>
PV8	<p>Rwy'n credu y byddai'n syniad gwael oherwydd rwyf wedi bod yn yr ysgol er pan oeddwn yn ddyflwydd oed, a byddwn yn drist iawn. Rwy'n credu y byddai pawb arall yn drist hefyd. Does dim bwlio yn yr ysgol hon, yn wahanol i ysgolion eraill, ac mae yna gynifer o athrawon a chynorthwyrwyr cymorth dysgu hyfryd. Rydym yn cael addysg dda yma ac mae yna rywbeth arbennig am yr ysgol hon, ni waeth beth y mae pobl yn ei ddweud.</p> <p>Mae ysgolion Catholig yn addysgu disgyblion am stori Duw, tra bo ysgolion nad ydynt yn rhai Catholig yn addysgu llythrennedd a rhifedd yn unig, felly, rwy'n credu y dylai pobl sy'n mynychu ysgol Gatholig allu mynd i ysgolion Catholig eraill.</p> <p>(Awgrym amgen) Dylem lunio poster a'i osod y tu allan i bobl allu gweld y poster a deall pa mor dda y mae ein hysgol.</p>
PV9	<p>Dydw i ddim yn credu y dylai'r ysgol gau oherwydd mae'n ysgol wych. Mae wedi bod yn agored ers amser maith ac mae llawer o bobl wedi bod yn astudio ynddi.</p> <p>Mae hon yn ysgol Gatholig a gallwn symud i ysgol Gatholig arall, os byddwn yn dymuno gwneud hynny.</p> <p>(Awgrym amgen) 'Nawr, a siarad o ddifrif, mae ein hysgol yn wych. Dydw i ddim am i'r ysgol hon gau. Os nad oes yna ddigon o bobl, does dim problem, oherwydd rwy'n gobeithio y bydd rhagor yn ymuno â ni cyn hir. Rwy'n credu y dylai'r ysgol barhau'n agored rhag ofn y bydd rhagor o ddisgyblion yn dod.</p>
PV10	<p>Dydw i ddim yn credu y dylai'r ysgol gau, a hynny am y rhesymau canlynol:</p>

Cyf.	Sylwadau
	<ul style="list-style-type: none"> . Mae'n ysgol Gatholig . Mae'n ysgol wych . Mae'r plant yn hapus yn yr ysgol hon . Mae gan y plant lawer o ffrindiau . Mae gennym athrawon anhygoel <p>YN BENDANT! Dylai plant allu mynd i ysgol Gatholig arall. Ni fydd yna Dduw heb ysgolion Catholig.</p> <p>(Awgrym amgen)</p> <ul style="list-style-type: none"> . Gallem droi'r ysgol yn ysgol lai, gan addysgu pawb mewn dau ddsbarth . Gallem lunio arwyddion i ofyn i bobl ddod i'n hysgol . Os bydd yr ysgol yn cau, gallem ddymchwel yr ysgol a'i throi yn barc
PV11	<p>Dydw i ddim am i'r ysgol hon gau oherwydd mae'n ysgol dda. Mae gennym lawer o ffrindiau. Dydw i ddim am eu gadael ac rwy'n dysgu llawer.</p> <p>Rwy'n credu y dylai plant Catholig gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig, ac ni ddylent orfod teithio'n rhy bell.</p> <p>(Awgrym amgen)</p> <p>Cadw'r ysgol yn agored trwy gael arian gan y llywodraeth, y banc a'r loteri. Ceisio denu rhagor o bobl i'r ysgol. Cyflwyno rhagor o gyfarpar chwarae.</p>

Date - Dyddiad **21 Tachwedd 2018**
 Your ref - Eich cyfeirnod
 My ref - Fy nghyfeirnod
 Telephone - Ffôn **01437 764551**
 Email - E-bost **Cllr.david.lloyd@pembrokeshire.gov.uk**
 www.pembrokeshire.gov.uk
 www.sir-benfro.gov.uk



Pembrokeshire County Council
 Cyngor Sir Penfro

DAVID LLOYD

Cabinet Member - Education
 Aelod o'r Cabinet - Addysg

Pembrokeshire County Council,
 County Hall, HAVERFORDWEST,
 Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
 Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
 Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 720853

Mrs B Thomas
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
Bufferland
Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6PD

Annwyl Mrs Thomas,

Cynnig corff llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair i derfynu'r ysgol

Byddwch gystal â derbyn y canlynol fel fy ymateb i'ch cynnig.

Rwy'n cydnabod sefyllfa anodd iawn y corff llywodraethol yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac rwy'n edmygu eich ymdrechion dewr, a rhai'r Gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion ac Esgobaeth Mynyw, wrth geisio ateb yr heriau oedd yn wynebu'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n anochel, efallai, bod y gostyngiad sydyn yn nifer y disgyblion wedi arwain at sefyllfa ariannol anghynaliadwy.

Rwy'n derbyn y gwnaed eich penderfyniad i ymgynghori ar gau'r ysgol gyda chalon drom, ond rwy'n teimlo bod rhaid i mi gefnogi'r penderfyniad hwnnw. Rwy'n ymwybodol, wrth gwrs, o'r ymdrechion a wnaed i sefydlogi'r sefyllfa arweinyddiaeth yn Ysgol y Santes Fair ac roeddwn yn falch iawn o ddarllen am y cydweithio rhagorol gyda'r corff llywodraethol a Phennaeth Ysgol Gatholig Sant Ffransis yn Aberdaugleddau yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Rwyf wedi nodi amryw ffactorau penodol sy'n peri i mi gredu bod eich penderfyniad i ymgynghori ar gau'r ysgol yn briodol, fel a ganlyn:

- **Diffyg gwelliant cyson dros gyfnod**
- **Dosbarthiad cenedlaethol - Coch**
- **Colli arweinyddiaeth**
- **Pryder y byddai'r ysgol yn cael ei gosod mewn categori swyddogol** Estyn o **gael ei harolygu**
- **Dirywiad sylweddol yn nifer y disgyblion**
- **Colli Catholignwydd**
- **Tystiolaeth fod yn well gan rieni ysgolion eraill yn y cylch**
- **Pryderon ynghylch ffyniant ariannol yr ysgol.**

Rwy'n nodi'r cais a wnaed gan yr Esgobaeth mewn cysylltiad â chynnal dewis i rieni sydd eisiau cael addysg Gatholig i'w plant. Rwy'n deall dymuniad yr Esgobaeth i wneud hyn ond, ar sail y wybodaeth a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'n ymddangos mai ychydig o alw sydd am ddarpariaeth o'r fath yn y cylch. Wrth gwrs, mae ysgolion Catholig eraill yn y sir; yng nghyd-destun eich cynnig, Ysgol Teilo Sant yn Ninbych-y-pysgod a'r ddywededig Ysgol Sant Ffransis yn Aberdaugleddau yw'r agosaf. O ystyried y cydweithredu blaenorol a amlinellwyd uchod, fe fyddwn yn argymhell mai'r ail fyddai'n ateb dewis y rhieni am ddarpariaeth addysg Gatholig. Fodd bynnag, nid wyf yn cefnogi'r awgrym o ychwanegu dalgylch Ysgol y Santes Fair at un Ysgol Sant Ffransis yn Aberdaugleddau at ddiben cludiant ysgol.

Yn achos y disgyblion hynny sydd ar ôl yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, rwy'n tueddu i gefnogi darparu cludiant i Ysgol Gatholig Sant Ffransis, fel eu bod yn gallu parhau mewn amgylchedd cynradd Catholig. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor hyd y gellir rhagweld, ni allaf gefnogi parhad y ddarpariaeth hon yn ddiderfyn ac, felly, mae ar gael yn unig i ddisgyblion ar gofrestr Ysgol y Santes Fair ar adeg ei chau, hyd nes byddant yn cyrraedd diwedd addysg gynradd. Rwy'n credu bod polisi cludiant ysgol y Cyngor mewn cysylltiad ag ysgolion crefyddol Cymorthedig Gwirfoddol yn hael ac fe fyddai hyn yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion o ardal Doc Penfro sydd angen darpariaeth o'r fath yn dilyn cau'r ysgol.

Mewn cysylltiad â'r plant sy'n mynychu sefydliad blynyddoedd cynnar cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru yn yr ysgol (Cylch Chwarae'r Santes Fair), rwy'n gallu cadarnhau fod darpariaeth yn rhywle arall yn y cylch gyda lle i'r holl blant sydd ar ôl; bydd Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluol y Cyngor yn gallu cynorthwyo yn hyn o beth.

I gloi, rwy'n cefnogi'n gryf cynnig y corff llywodraethol i derfynu'r ysgol ac yn sicrhau parhad cefnogaeth fy swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion.

Yn gywir,

Y Cynghorydd David Lloyd
Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ymateb Estyn i'r cynnig gan gorff llywodraethol ysgol gynradd Gatholig y Santes Fair i roi'r gorau i gynnal Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Doc Penfro

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn o'r fam bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o addysg yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr yn cyflwyno rhesymeg glir dros gau'r ysgol. Mae nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol ers 2016. Yn ogystal, mae rhagolygon disgyblion yn dangos gostyngiad sylweddol pellach mewn niferoedd dros y pum mlynedd nesaf. Hefyd, mae'r cynigiwr yn cyfeirio at broblemau o ran recriwtio pennaeth Catholig fel un arall o'r prif resymau dros gyflwyno'r cynnig.

Mae'r cynigiwr yn nodi pum mantais ddisgwyliedig i'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon clir sut mae'r cynigiwr yn ystyried bod tri o'r rhain yn fanteision. Mae'n

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru - enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru - www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth. Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

ymddangos y byddai'n fwy priodol i'w cysylltu â rheoli risg. Mae'r ddwy fantais ddisgwyliedig gliriach fel a ganlyn:

- ceir ysgolion amgen ag arweinyddiaeth sefydlog ac maent mewn categorïau lle nad oes arnynt angen llawer o gymorth gan y gwasanaeth gwella ysgolion, a
- chyfleoedd gwell i ddisgyblion gyflawni eu potensial a thu hwnt

Yr unig anfantais a nodir yw colli darpariaeth ysgol gynradd Gatholig leol a mwy o bellter er mwyn cael mynediad i ddarpariaeth amgen debyg.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol y risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, sef y risg o fethu cael cymeradwyaeth gan y cyrff perthnasol, methu cydymffurfio â'r drefn briodol a'r risg o rieni'n trosglwyddo eu plant i ysgolion eraill yn dilyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Mae gwrth-fesurau'r cynigiwr i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ymddangos yn rhesymol.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i opsiynau eraill, sydd yn cynnwys parhau fel ysgol hunangynhaliol a chynnal trefniadau ffederasiwn anffurfiol. Mae'r rheswm dros beidio â mynd ar drywydd yr opsiynau hyn yn ymddangos yn glir ac yn ddilys.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried darpariaeth amgen arall. Er enghraifft, mae wedi cydnabod bod dwy ysgol gynradd wedi'u lleoli lai na milltir i ffwrdd o ysgol y Santes Fair sydd â lleoedd ar gael ac sydd o fewn pellter cerdded diogel rhesymol. Hefyd, mae'r cynigiwr wedi gofyn i'r cyngor am drafndiaeth am ddim i'r ysgol Gatholig amgen agosaf, sef ysgol Gatholig Sant Francis yn Aberdaugleddau. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi egluro beth yw'r pellter rhwng y ddwy ysgol na faint o amser sydd ei angen i deithio i ysgol Gatholig Sant Francis. Yn ogystal, mae'r cynigiwr wedi awgrymu ysgol Gatholig Teilo Sant fel darpariaeth amgen bosibl, ond nid yw wedi darparu gwybodaeth ynghylch y pellter o ysgol y Santes Fair, yr amser sydd ei angen ar gyfer teithio na manylion darpariaeth unrhyw drafndiaeth i'r ysgol hon.

Mae'r cynigiwr yn rhestru niferoedd y lleoedd gwag mewn ysgolion cyfagos. Mae wedi dangos bod digon o leoedd yn yr ysgolion i dderbyn disgyblion o ysgol y Santes Fair. Fodd bynnag, nid oes gan ysgol Gatholig Sant Francis ddigon o leoedd i dderbyn yr holl ddisgyblion a ddadleolir o ysgol y Santes Fair. Nid yw'r cynigiwr wedi dangos yn glir sut y bydd yn mynd i'r afael â'r mater os bydd pob disgybl o ysgol y Santes Fair yn dewis mynd i ysgol Sant Francis. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod gan ysgol Gatholig Teilo Sant leoedd i naw disgybl yn unig.

Ymddengys bod y cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Daw i'r casgliad yn rhesymol nad oes unrhyw effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn cyfeirio o gwbl at gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith y cynigion ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae wedi ystyried perfformiad ysgol y Santes Fair, safbwyntiau'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol ac adroddiad arolygu diweddaraf yr ysgol. Daeth i'r casgliad bod deilliannau mewn ysgolion eraill yn y mwyafrif o ddangosyddion yn gyson gryfach nag yn ysgol y Santes Fair. Yn ogystal, mae'n cydnabod bod ansawdd yr addysgu mewn ysgolion ar draws y clwstwr yn gryfach a bod ehangder ac ansawdd y cwricwlwm a gynigir yn fwy amrywiol. Hefyd, mae'n cydnabod bod ysgolion eraill yn y clwstwr ac ysgol Gatholig Sant Franci s yn gallu darparu'r ddarpariaeth lawn fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cynigiwr yn nodi diffygion mewn arweinyddiaeth yn ysgol y Santes Fair ac yn datgan bod arweinyddiaeth sefydlog, gref yn y rhan fwyaf o ysgolion amgen yn yr ardal.

Ymddengys bod y cynigiwr wedi ystyried yn ddigonol effaith y cynnig ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n datgan bod ansawdd y cymorth ar gyfer ADY a chymorth ymddygiadol ac emosiynol yn dda neu'n well ym mhob ysgol yn y clwstwr.

Mae asesiad boddhaol o'r effaith ar gydraddoldeb yn archwilio effaith y cynnig ar ddisgyblion â nodweddion gwarchoddedig a daw i'r casgliad nad oes unrhyw effaith ar lawer o'r nodweddion gwarchoddedig hyn. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod effaith negyddol ar grefydd a chred.

Nid yw'n ymddangos bod y cynigiwr wedi gwneud sylwadau'n uniongyrchol ar sut y bydd unrhyw amhariad posibl i ddysgwyr yn cael ei leihau.